Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adolygiad Asesu Risg a Sicrwydd — Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Blwyddyn archwilio: 2021–22

Dyddiad cyhoeddi: Medi 2022

Cyfeirnod y ddogfen: 3159A2022

Paratowyd y ddogfen yn rhan o waith a gyflawnir yn unol ag Adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac Adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb mewn cysylltiad ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn eu rhinwedd unigol nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


Yr hyn a adolygwyd gennym a pham 4

Sefyllfa ariannol 5

Goblygiadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 8

Cynllun lleihau carbon 9

# Yr hyn a adolygwyd gennym a pham

1 Gwnaethom gynnal y prosiect i nodi lefel y sicrwydd archwilio a/neu pan fo angen rhagor o waith archwilio yn y dyfodol mewn cysylltiad â risgiau wrth i'r Cyngor roi trefniadau priodol ar waith er mwyn sicrhau gwerth am arian wrth iddo ddefnyddio adnoddau. Bu'r prosiect hwn hefyd o gymorth i ni asesu i ba raddau y mae'r corff yn cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gymryd camau i gyflawni ei amcanion llesiant.

2 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi ein canfyddiadau yn y meysydd yr ydym wedi gwneud gwaith Sicrwydd ac Asesu Risg manylach ynddynt. Byddwn hefyd yn llunio Crynodeb Archwilio Blynyddol yn ystod hydref 2022 a fydd yn crynhoi ein holl waith archwilio a wnaed ers ein Crynodeb Archwilio Blynyddol diwethaf ym mis Ionawr 2022.

3 Gwnaethom ganolbwyntio'n benodol ar y meysydd canlynol yn y Cyngor:

- Sefyllfa ariannol
- Goblygiadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021
- Cynllun lleihau carbon

4 Roedd ein sylfaen dystiolaeth ar gyfer y gwaith hwn yn cynnwys canfyddiadau yn deillio o gyfweliadau â swyddogion Cyngor a'n hadolygiad o ddogfennau perthnasol.

5 Mae'r prosiect Asesu Risg a Sicrwydd wedi bod ar waith drwy gydol y flwyddyn. Gwnaethom roi gwybod i swyddogion am ganfyddiadau a ddaeth i'r amlwg wrth inni ymgymryd â'r gwaith hwn, a chynhaliwyd gweithdy hefyd gyda'r Fforwm Datblygu Polisi ym mis Gorffennaf 2022 lle buom yn rhannu canfyddiadau a ddaeth i'r amlwg mewn cysylltiad â rhai agweddau ar y gwaith hwn. Defnyddiwyd y gweithdy hefyd i gasglu safbwyntiau uwch-reolwyr ar y risgiau archwilio allweddol mewn cysylltiad â'r Cyngor ac i lywio ein blaengynlluniau.

# Sefyllfa ariannol

## Mae cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru wedi helpu i wella sefyllfa ariannol y Cyngor dros y blynyddoedd diwethaf, ond mae angen iddo ddatblygu cynllun cynaliadwy i fynd i'r afael â phwysau cost cyfredol a chau ei fwlch cyllid tymor canolig, a bydd hyn yn parhau i fod yn heriol yn ystod y cyfnod hwn o ansicrwydd economaidd sylweddol

6 Gwnaethon ni adolygu sefyllfa ariannol y Cyngor yn ystod mis Mehefin a mis Gorffennaf 2022. Roedd hyn yn cynnwys ystyried sefyllfa arian wrth gefn y Cyngor, cyflawni arbedion a pherfformiad arfaethedig o'u cymharu â'r gyllideb arfaethedig ar gyfer y flwyddyn

7 Hefyd, gwnaethom gyhoeddi Offeryn Data Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol ym mis Chwefror 2022 sy'n cynnwys amrywiaeth o ddata ariannol ar gyfer cynghorau, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub yng Nghymru.

## Strategaeth ariannol


8 Ni nododd ein gwaith blaenorol ar gynaliadwyedd ariannol unrhyw wendidau sylweddol o ran strategaeth ariannol. Fodd bynnag, gwnaethom gynnig 'i bontio ei fwlch cyllid amcangyfrifedig a chyfrannu at gryfhau ei gynaliadwyedd ariannol' y dylai'r Cyngor ddatblygu a chyflwyno rhaglen arbedion arfaethedig cynaliadwy dros y tymor canolig, gan gynnwys y manteision ariannol sy'n deillio o gyflwyno ei raglen drawsnewid T22 (T22).

9 Roedd strategaeth ariannol y Cyngor ar gyfer y dyfodol yn dibynnu'n sylweddol, ond nid yn gyfan gwbl, ar arbedion o'i raglen drawsnewid T22. Mae'r Cyngor bellach yn rhoi'r gorau i ddefnyddio rhaglen T22 yn raddol, er mwyn ei disodli â Swyddfa Rheoli Rhaglen.

10 Bu cynnydd o £1.8 miliwn ym mwlch cyllid cronnol y Cyngor a ragwelwyd yn ystod cyfnod 2021–22, o £14.4 miliwn ym mis Mawrth 2021 i £16.2 miliwn ym mis Mawrth 2022.

**Arddangosyn 1: y cyfanswm a ragwelir ar gyfer bwlch cyllid tymor canolig y Cyngor yw £16.2 miliwn – sydd £1.8 miliwn yn uwch na rhagolwg y llynedd**

Mae'r graff hwn yn dangos y bwlch cyllid tymor canolig a nodwyd gan y Cyngor ym mis Mawrth 2021 a mis Mawrth 2022. Cronnol yw'r ffigurau blynyddol.




11 Oherwydd y setliad gwell gan Lywodraeth Cymru a chyflawniad y camau lliniaru, nid oes gan y Cyngor fwlch cyllid a ragwelir yn 2022–23. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cydnabod yr angen i ddatblygu a chyflwyno rhaglen arbedion arfaethedig cynaliadwy er mwyn helpu i gau'r bwlch cyllid tymor canolig ac mae'n bwriadu datblygu'r rhaglen hon gyda'r weinyddiaeth newydd ac yng nghyd-destun ei Gynllun Corfforaethol newydd. Wrth wneud hynny, bydd angen i'r Cyngor fod yn ymwybodol o'r egwyddor datblygu cynaliadwy a manteision dull cyflawni arbedion mwy hirdymor.

12 Mae setliadau cyllid dangosol Llywodraeth Cymru ar sail Cymru gyfan o 3.5% a 2.4% yn y drefn honno ar gyfer 2023–24 a 2024–25 yn darparu rhywfaint o sicrwydd cyllidol dros y tymor canolig. Fodd bynnag, bydd gwaith cynllunio ariannol tymor canolig yn parhau i ddibynnu ar ystod o ragdybiaethau, ac o'i gyplysu â'r dirwedd economaidd-gymdeithasol sy'n newid yn y cyfnod hwn o ansicrwydd economaidd sylweddol, bydd cynllunio ar gyfer cadernid ariannol a rowndiau cyllideb y dyfodol yn parhau i fod yn heriol i gynghorau.

13 Derbyniodd aelodau Gynllun Ariannol Tymor Canolig wedi'i ddiweddaru ym mis Chwefror 2022 yn rhan o gynigion y gyllideb ddrafft, a darparwyd cyfle digonol i graffu. Mae swyddogion yn parhau i allu gweld yn dda newidiadau a fyddai'n effeithio ar y rhagdybiaethau yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ac maent yn eu diweddaru yn ôl yr angen. Er enghraifft, cyflwynwyd adroddiadau sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar sefyllfa ac alldro y gyllideb i'r Pwyllgor Trawsbynciol Trosolwg a Chraffu Adnoddau a Busnes, y Cabinet, a Seminar yr Aelodau ar Gyd-destun Ariannol a Chynllunio Gwasanaethau.

## Cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy

14 Yn 2020–21 ac yn 2021–22, penderfynodd y Cyngor gynyddu ei gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy. Dengys **Arddangos 2**, ar ddiwedd 2021–22, fod lefelau y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy—mewn termau absoliwt ac fel canran o gost net y gwasanaeth—ar eu huchaf ers chwe blynedd. Ond yn hanesyddol, fodd bynnag, mae lefelau'r cronfeydd wrth gefn wedi bod yn gymharol isel o'u cymharu ag awdurdodau eraill yng Nghymru.

**Arddangosyn 2: nifer y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy o'u cymharu â'r gyllideb flynyddol**

Dengys yr arddangosyn hwn faint o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy oedd gan y Cyngor ar ddiwedd 2021–22 a'r pum mlynedd flaenorol fel cyfran o gost net y gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor[1].

| | 2016–17 | 2017–18 | 2018–19 | 2019–20 | 2020–21 | 2021–22 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cost net y gwasanaethau mewn £ miliynau[2] | 174.4 | 173.3 | 181.1 | 186.6 | 186.0 | 188.9 |
| Cyfanswm y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy mewn £ miliynau[3] | 17.4 | 18.2 | 18.7 | 16.7 | 25.4 | 41.4 |
| Cyfanswm y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy fel canran o gost net y gwasanaethau | 10 | 10.5 | 10.3 | 8.9 | 13.7 | 21.9% |
| Cymhariaeth â chynghorau eraill Cymru | 20fed | 19eg | 17eg | 20fed | 21ain | Nid ar gael eto |

[1] Ffynhonnell: 2016–17 hyd 2020–21: Offeryn Data Cynaliadwyedd Ariannol Archwilio Cymru; 2021–22: Datganiad alldro y Cyngor.

[2] Y gost net am y gwasanaethau a godwyd ar y gronfa gyffredinol o'r Dadansoddiad Cyllid Gwariant, namyn cost unrhyw wasanaethau Cyfrif Refeniw Tai, gan ychwanegu praeseptau, ardollau a llog ar ddyledion

[3] Ystyr cronfeydd ariannol defnyddiadwy yw cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio ar gyfer costau refeniw pan na ddiogelir y diben gan y gyfraith. Hynny yw, cyfanswm y gronfa gyffredinol, y cronfeydd wrth gefn a neilltuwyd, a balansau yr ysgolion. Nid yw'n cynnwys cronfeydd wrth gefn y Cyfrif Refeniw Tai, derbyniadau cyfalaf na grantiau cyfalaf nas defnyddiwyd.

## Cyflawni arbedion

15 Canfuom fod gan y Cyngor hanes da o gyflawni yn erbyn cyllidebau arfaethedig. Rhwng 2017–18 a 2020–21, llwyddodd y Cyngor i gyflawni rhwng 72% a 94% o'i arbedion arfaethedig.

16 Cyflawnodd y Cyngor oddeutu £2.5 miliwn (94%) o'i arbedion arfaethedig yn 2021–22. Fodd bynnag, cyflawnodd y Cyngor arbedion eraill (nas cynlluniwyd) hefyd o £88,000 yn ystod y flwyddyn. At ei gilydd, arweiniodd hyn at y Cyngor yn cyflawni 98% o'i darged arbedion blynyddol.

## Y perfformiad o'i gymharu â'r gyllideb

17 Rydym wedi adrodd yn flaenorol fod gan y Cyngor hanes da o gyflawni o'i gymharu â'i gyllideb gyffredinol. Er y bu gorwariant mewn rhai meysydd gwasanaeth yn ystod y blynyddoedd blaenorol, er enghraifft, yn yr adrannau gwasanaethau i Blant a Chymdogaethau, mae'r rhain wedi eu gwrthbwyso i raddau helaeth gan danwariant mewn meysydd gwasanaeth eraill, drwy ddefnyddio cronfeydd wrth gefn a/neu gan arian annisgwyl untro.

18 Yn 2021–22, bu tanwariant o £11.7 miliwn yng nghyllideb gwasanaethau y Cyngor, derbyniodd £1.8 miliwn o gyllid craidd ychwanegol (Cyllid Allanol Cyfun) hefyd oddi wrth Lywodraeth Cymru i gefnogi'r Cyngor drwy'r pandemig. Yn 2021–22, doedd dim gorwariant mewn meysydd gwasanaeth unigol. Mae'r Cyngor wedi trosglwyddo £9.7 miliwn o'r tanwariant i gronfeydd wrth gefn a neilltuwyd a dyrannwyd y £3.3 miliwn sy'n weddill i'r Gronfa wrth gefn Cyffredinol.

# Goblygiadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

## Mae'r Cyngor yn rhoi trefniadau ar waith mewn ymateb i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, ond mae'n cydnabod bod angen iddo ddatblygu ymhellach ei ddull o hunanasesu ac o ymgysylltu â'r cyhoedd

19 Aethom ati i asesu cynnydd y Cyngor wrth ymateb i'r gofynion allweddol yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (y Ddeddf) rhwng Mai a Mehefin 2022. Casglwyd y dystiolaeth trwy gyfweliadau ac adolygiadau dogfennau a hefyd drwy ddefnyddio canfyddiadau perthnasol o'n gwaith arall sy'n mynd ymlaen a'n gwaith diweddar yn y Cyngor. Roedd ein gwaith yn canolbwyntio ar y trefniadau y mae'r Cyngor yn eu rhoi ar waith wrth ymateb i'r Ddeddf.

20 Mae'r Cyngor yn deall yr hyn y mae'n rhaid iddo ei wneud i weithredu'r newidiadau sy'n ofynnol gan y Ddeddf ac mae wedi datblygu cynllun gweithredu mewn ymateb i hynny.

21 Mae’r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau barhau i adolygu perfformiad, ymgynghori, ac adrodd ar berfformiad drwy hunanasesu. Mae’n rhaid i gynghorau lunio a chyhoeddi adroddiad hunanasesu unwaith ar gyfer pob blwyddyn ariannol.

22 Canfuom y bu ymgysylltiad corfforaethol rhagweithiol gan Uwch-dîm Arweinyddiaeth y Cyngor, yr Is-grŵp Arweinyddiaeth ac Aelodau ynghylch datblygu eu dull hunanasesu. Mae’r Cyngor wedi dechrau casglu tystiolaeth fel ffordd o asesu ei sefyllfa o’i chymharu â set o nodweddion diffiniedig ar gyfer Cyngor rhagorol, a chyflwynwyd drafft cyntaf o’i hunanasesiad i’w Bwyllgor Craffu Trawsbynciol ym mis Gorffennaf 2022.

23 Bwriad y Cyngor yw gwella ei drefniadau ar y ffordd y mae’n hunanasesu wrth symud ymlaen, i gasglu a gwerthuso data er mwyn sicrhau dealltwriaeth gorfforaethol ac y rheolir perfformiad yn fwy effeithiol a’i fod wedi gweithredu yn hynny o beth. Er enghraifft, mae’r Cyngor yn datblygu ei Fframwaith Strategol a’i Fframwaith Rheoli Perfformiad newydd y mae’n dymuno iddynt fod yn hunanfyfyriol, gan ganolbwyntio ar welliant a defnyddio set eang o ddata i herio a gwerthuso perfformiad.

24 Mae’r Cyngor wedi adolygu sut mae’n ymgysylltu â dinasyddion ac wedi ymgynghori ar ei Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd lefel uchel. Mae’r Cyngor yn dymuno gweithio gyda’i gymunedau mewn ffyrdd creadigol newydd i nodi atebion a chyfleoedd a rennir i lywio dyluniad gwasanaethau. Yn fras, mae’r strategaeth yn nodi model cyfranogi Torfaen ac yn rhestru’r gwahanol ffyrdd y gall rhanddeiliaid ymgysylltu â’r Cyngor—er enghraifft, y paneli preswyl amrywiol a’i ganolfan ymgynghori. Mae’r Cyngor yn datblygu cyfres o ddogfennau a chanllawiau i helpu gwasanaethau gyda gofynion cyfranogiad y cyhoedd ac mae wedi lansio rhaglen ar-lein newydd er mwyn ymgysylltu â’r cyhoedd a rhanddeiliaid. Nod cyfarwyddiaeth Cymunedau a Digidol sydd newydd ei sefydlu yw helpu’r Cyngor i wireddu ei uchelgais o wella capasiti a chadernid cymunedol a chanolbwyntio ar gyfranogiad y cyhoedd er mwyn deall anghenion cymunedol yn well. Mae’r Cyngor yn cydnabod bod mwy o waith i’w wneud i sicrhau bod ei agenda cyfranogiad yn adlewyrchu’r arferion gorau ar gyfer cyfranogiad y cyhoedd.

25 Mae’r Cyngor wedi sefydlu Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio newydd er mwyn bodloni gofynion y Ddeddf. Bydd y Pwyllgor yn cynnwys pum cynghorydd a thri aelod lleyg.

# Cynllun lleihau carbon

## Mae’r Cyngor yn deall yr her sylweddol o fod yn sero net erbyn 2030 ac mae’n rhoi adnoddau a threfniadau ar waith er mwyn cyflawni ei gynllun gweithredu a monitro ei gynnydd

26 Ym mis Gorffennaf 2022, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol Parodrwydd y Sector Cyhoeddus ar gyfer Carbon Sero Net erbyn 2030 sy’n edrych ar gamau

datgarboneiddio mewn 48 o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys yr holl gynghorau. Canfu'r adroddiad hwn ansicrwydd y bydd yr uchelgais ar y cyd o sector cyhoeddus sero net erbyn 2030 yn cael ei fodloni. Nododd ein gwaith rwystrau sylweddol cyffredin i gynnydd y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus fynd i'r afael â nhw ar y cyd er mwyn bodloni'r uchelgais ar y cyd. Canfuom er bod cyrff cyhoeddus yn dangos ymrwymiad i leihau allyriadau carbon, erbyn hyn, mae'n rhaid iddynt gynyddu eu gweithgareddau'n sylweddol, cynyddu cydweithrediad a rhoi datgarboneiddio wrth wraidd eu gweithrediadau a'u penderfyniadau o ddydd i ddydd.

27 Yn yr adroddiad, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud y pum galwad canlynol am weithredu gan gyrff cyhoeddus:

- Cryfhau eich arweinyddiaeth a dangos eich cyfrifoldeb ar y cyd drwy gydweithrediad effeithiol
- Egluro eich cyfeiriad strategol a chynyddu cyflymder y gweithrediad
- Mynd i'r afael â'r cyllid sydd ei angen arnoch
- Adnabod eich bylchau sgiliau a chynyddu eich capasiti
- Gwella ansawdd data a gwaith monitro i gefnogi eich proses o wneud penderfyniadau

28 Mae'r paragraffau canlynol yn nodi canfyddiadau ein gwaith archwilio lleol ar gynllun gweithredu datgarboneiddio y Cyngor. Yng nghyd-destun ehangach adroddiad Gorffennaf 2022 yr Archwilydd Cyffredinol sy'n galw am gyflymu'r broses ac arweiniad cryfach ledled Cymru o ran lleihau allyriadau carbon y mae'r canfyddiadau hyn.

29 Aethom ati i asesu trefniadau'r Cyngor i ddatblygu a chyflawni ei gynllun gweithredu Argyfwng Hinsawdd a Natur rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2022. Gwnaethom gasglu tystiolaeth drwy gyfweliad gyda swyddogion allweddol y Cyngor, adolygiadau dogfennau a Galwad am Dystiolaeth y Cyngor a ddychwelwyd. Gwnaethom ddefnyddio gwybodaeth berthnasol oddi wrth ein Tîm Astudiaethau Cenedlaethol hefyd a gynhaliodd adolygiad sylfaenol o drefniadau y sector cyhoeddus mewn ymateb i darged lleihau carbon Llywodraeth Cymru ar gyfer 2030.

30 Mae'r Cyngor yn deall yr her sylweddol o fynd i'r afael â newid hinsawdd. Mae cofrestr risgiau corfforaethol y Cyngor yn cynnwys tair risg ar: fethu â chyflawni sero net erbyn 2030; methu â chefnogi'n ddigonol, arwain a hwyluso'r Fwrdeistref i ddod yn garbon sero net erbyn 2050; a methu â sicrhau y byddai cenedlaethau'r dyfodol a fydd yn byw yn Nhorfaen yn elwa o amgylchedd naturiol bioamrywiol sy'n cefnogi eu llesiant.

31 Cymeradwyodd y Cabinet gynllun gweithredu Argyfwng Hinsawdd a Natur y Cyngor (y cynllun gweithredu) ym mis Chwefror 2022. Roedd y Cyngor yn cynnwys staff ac aelodau etholedig wrth ddatblygu'r cynllun gweithredu hwn, ymgynghorodd â'r cyhoedd a chreodd Lysgenhadon Newid Hinsawdd i weithio gyda'r Cyngor ar yr agenda hon. Wrth i'r cynllun gweithredu ddatblygu, mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen iddo wneud mwy i ymgysylltu â chymunedau yn effeithiol.

32 Mae'r Cyngor yn dechrau rhoi trefniadau monitro ac adrodd ar waith ar gyfer y cynllun gweithredu. Mae gan y Cyngor drefniadau ar gyfer swyddogion ac aelodau i oruchwylio'r gwaith o gyflawni'r cynllun gweithredu. Bydd grŵp Swyddogion Argyfwng Hinsawdd y Cyngor yn monitro'r broses o gyflawni'r cynllun gweithredu ac yn bod y cysylltiad â meysydd gwasanaeth unigol. Hefyd, ffurfiodd y Cabinet is-grŵp i oruchwylio'r gwaith o gyflawni'r cynllun gweithredu. Mae'r is-grŵp yn cwrdd bob yn ail mis i fonitro'r cynnydd a bydd yn cael adroddiadau cynnydd blynyddol. Hefyd, bydd y pwyllgorau craffu perthnasol yn cael adroddiad cynnydd bob 18 mis.

33 Mae'r Cyngor yn cydnabod nad yw pob cam yn y cynllun yn rhwydd eu mesur, ac mae wedi dechrau ar y gwaith o sefydlu mesurau perfformiad mwy cadarn lle bo modd, a ddylai wella'r trefniadau ar gyfer monitro ac asesu'r cynnydd yn ei dro. Mae'r Cyngor hefyd ar gam cynnar yn y broses o ddatblygu Fframwaith Rheoli Perfformiad newydd a fydd yn llywio fframwaith adrodd ar berfformiad y dyfodol ar gyfer y Cynllun Gweithredu Argyfwng Hinsawdd a Natur.

34 Mae'r Cyngor yn cynyddu ei wariant refeniw ar gyflawni'r cynllun gweithredu, ond mae'n cydnabod mai materion tymor canolig i hirdymor yw'r goblygiadau adnoddau wrth gyflawni ei gynllun gweithredu, gan gynnwys meithrin capasiti'r staff ac uwchsgilio gwybodaeth dechnegol staff perthnasol mewn meysydd gwasanaeth, ac nid yw'r cynllun gweithredu wedi ei gostio'n llawn ac nid yw adnoddau wedi eu darparu ar ei gyfer ychwaith. Mae'r gwaith o ddiffinio'r costau hyn yn dal i fod ar gam cynnar ac mae angen o hyd ei ymgorffori i'w Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a'i Raglen Gyfalaf. Rydym yn deall yr heriau wrth asesu cost ariannol ac effaith carbon y gweithredoedd datgarboneiddio, ond bydd y data hyn yn allweddol i flaenoriaethu camau gweithredu sy'n darparu'r budd mwyaf a dealltwriaeth o'r gofynion cyllido.

35 Mae'r Cyngor yn cydnabod bod mynd i'r afael â'r angen i fod yn garbon niwtral erbyn 2030 yn gofyn am gyfranogiad ac ymrwymiad gan wasanaethau ar draws y Cyngor. Mae'r cynllun gweithredu'n adlewyrchu hyn ac mae'n neilltuo'r cyfrifoldeb o ddarparu nifer o gamau i nifer o wasanaethau y Cyngor, megis y Tîm Ynni, Gwasanaethau Eiddo, Diogelu'r Cyhoedd, Adnoddau Dynol, Rheoli Asedau, Uned Trafnidiaeth Integredig, Bwrdd Caffael T22, y Tîm Economi a Sgiliau, gwasanaethau Gwastraff, Priffyrdd a Thîm Polisïau'r Amgylchedd Naturiol. I gydlynu ac arwain ar y gweithgaredd hwn, creodd y Cyngor swyddogaeth Rheolwr Ynni a Lleihau Carbon newydd yn gynnar yn 2022. Mae gan y rheolwr hwn swyddogaeth allweddol wrth gyflawni'r agenda hon ynghyd â Swyddog Ynni y Cyngor. Ym mis Mai 2022, yn sgil ailstrwythuro'r gyfarwyddiaeth Cymdogaeth, Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd, creodd y Cyngor swyddogaeth Pennaeth Gwasanaeth ychwanegol gyda phwyslais ar Newid Hinsawdd.

36 Mae gan y Cyngor swyddogion ar y Panel Strategaeth Datgarboneiddio Llywodraeth Leol ac ar wahanol grwpiau ar gyfer swyddogion ledled Cymru. Hefyd, mae gan swyddogion gysylltiadau agos â'u cymheiriaid ledled Gwent er mwyn ymateb ar y cyd i'r argyfwng newid hinsawdd, rhannu syniadau a dysgu oddi wrth ei gilydd.

## Argymhellion

**Arddangosyn 3: argymhellion**

Mae'r tabl isod yn cynnwys yr argymhellion a nodiwyd gennym yn sgil yr adolygiad hwn.

| **Argymhellion** | |
|---|---|
| A1 | Dylai'r Cyngor sicrhau bod ei gamau arfaethedig ar gyfer cyrraedd sero net erbyn 2030:<br>• wedi eu costio'n llawn o ran eu heffaith carbon ac ariannol er mwyn ei alluogi i flaenoriaethu gweithredoedd;<br>• wedi eu hadlewyrchu'n llawn yn ei Gynllun Ariannol Tymor Canolig a'i Strategaeth Gyfalaf, ac<br>• wedi eu hintegreiddio i gynlluniau busnes y gyfarwyddiaeth a'r gwasanaeth. |
| A2 | Dylai'r Cyngor ddatblygu set gadarn o fetrigau i fesur ac adrodd cynnydd ar ei daith ddatgarboneiddio. |

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.
We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.